BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019.

Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam

Lyndsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cadeirydd)
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
Rebecca Masters	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sue Price	Coleg Cambria
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Mark Williams	Heddlu Gogledd Cymru
Amanda Aldridge	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gary Doherty	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Lucy Jones	Prifysgol Glyndŵr (ar ran Nina Ruddle)
Claire Mooney	Gwasanaeth Prawf Cymru
Michael Cantwell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Dirprwy Gadeirydd)
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Lynn Moore	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Nina Ruddle	Prifysgol Glyndŵr

Ar gyfer eitem 2

Alison Hughes	BCU – arweinydd clwstwr De Wrecsam
Karen Chambers	BCU - rheolwr rhaglen
Charlotte Walton	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ar gyfer eitem 3

Sue Wyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Llinos Roberts	Coleg Cambria

1	**Croeso**	
	Croesawodd LR bawb a lwyddodd i fynychu'r cyfarfod (a oedd, yn anffodus, yn cyd-daro â'r Etholiad Cyffredinol dirybudd, felly roedd mwy o ymddiheuriadau na'r arfer).	

1	**Croeso**	
2	**Datblygu Gwytnwch Cymunedol - prosiect gweddnewid**	
	Cyflwynodd AH a KC y wybodaeth ddiweddaraf i'r BGC am y rhaglen beilot y maent yn ei harwain i ddatblygu Gwytnwch Cymunedol. Drwy ddefnyddio dull damcaniaeth newid, mae'r rhaglen yn datblygu cyfres o ddangosyddion bodlonrwydd cleifion i fesur cynnydd. Mae'r dull yn canolbwyntio ar newid system – mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at hyn drwy 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif', ac mae Coleg Cambria hefyd yn cymryd rhan drwy'r bartneriaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned. Cytunodd MW i gefnogi'r rhaglen, fel y gallai HGC ystyried sut i ehangu a newid eu gweithlu. Cytunwyd y dylid cynnwys y cyflwyniad hwn ar y rhaglen ar gyfer un o gyfarfodydd y BGC i'r dyfodol.	MW RS
3	**Datblygu'r Gymraeg**	
	Rhoddodd LR a SWJ gyflwyniad ar beth allwn ni ei wneud i ddatblygu'r Gymraeg. Y targed yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae 10% o'r boblogaeth yn Wrecsam yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac rydym yn gobeithio dyblu hyn. Mae LR wedi mapio'r ymrwymiad i hyfforddiant Cymraeg ar draws sefydliadau'r BGC, ac mae rhagor o hyfforddiant ar gael drwy Goleg Cambria. Yr allwedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd yw rhoi cynnig arni. Teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol sefydlu is-grŵp BGC i ganolbwyntio ar y Gymraeg er mwyn nodi cyfleodd ar draws y Byrddau ac o fewn partneriaid. Roedd gan yr heddlu bolisi i agor a chau cyfarfodydd yn Gymraeg, felly cytunwyd y dylid rhoi cynnig ar hyn mewn cyfarfodydd BGC i'r dyfodol. Cytunwyd y dylid cynnwys cyflwyniad gan LR a SWJ ar y rhaglen ar gyfer un o gyfarfodydd y BGC i'r dyfodol.	BGC MC
4	**Yr wybodaeth ddiweddaraf**	
	Atgoffodd LR yr aelodau, er mwyn i'r byrddau rhaglen gyflawni eu camau gweithredu: • Bydd cyfarfodydd i'r dyfodol yn canolbwyntio ar sut y gallai sefydliadau'r BGC ychwanegu gwerth at y ffordd y mae'r byrddau rhaglen yn cyflawni camau gweithredu ar lawr gwlad. • Bydd y MAT yn cyfarfod rhwng cyfarfodydd y BGC i gynnal momentwm y broses, ac yn canolbwyntio ar sut y gallwn rannu ac integreiddio camau gweithredu'r byrddau rhaglen. • Bydd diweddariadau'r bwrdd rhaglen yn cael eu rhannu gydag aelodau'r BGC yn dilyn y MAT. • Bydd arweinwyr y byrddau rhaglen yn nodi meysydd sy'n ymofyn cymorth gan bartneriaid y BGC ac yn amlygu hyn yng nghyfarfodydd y BGC	

1	**Croeso**	
	• Bydd aelodau'r BGC yn gyfrifol am weithredu ar y diweddariadau – i nodi cyfleodd ar gyfer cydweithio, darparu heriau adeiladol a chynnig ffyrdd newydd o feddwl. • Bydd cyfarfodydd busnes y BGC i'r dyfodol yn canolbwyntio ar ***gynllun gweithredu'r bartneriaeth,*** gan ystyried un neu ddau fater polisi yn fanwl, gyda diweddariad byr gan bob bwrdd rhaglen Roedd y Bwrdd Dysgu Gydol Oes yn gwneud cynnydd i ddarparu Prifysgol Plant yn Wrecsam, gyda Choleg Cambria, Glyndŵr a CBSW yn cydweithio. Mae'r Bwrdd Cychwyn Iach bellach â chynllun ar waith sy'n canolbwyntio ar y 1000 diwrnod cyntaf.	SP RM
5	**Unrhyw Fater Arall**	
	Dim	
6	**Dyddiadau Cyfarfodydd 2020:**	
	12.03.20 4pm tan 6pm Siambr y Cyngor Neuadd y Dref Wrecsam 11.06.20 10am tan 12pm Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam	

Anfonwch neges e-bost i sustainability@wrexham.gov.uk os hoffech chi ragor o wybodaeth am y cofnodion hyn.